

Gwybodaeth i athrawon a llywodraeth wyr



Comisiynyd
d
Plant
Cymru
Children's
Commission
er
for Wales

Cynnwys

Llysghenhadon Gwych	t.3
Llysghenhadon Uwchradd	t.4
Cynghorion	t.5
Gweithgareddau estyn	t.5



Comisiynyd
d
Plant
Cymru
Children's
Commissioner
for Wales

Llysgenhadon Gwych

Mae Tasg Arbennig y tymor yma wedi'i chysylltu â chanllawiau statudol Llywodraeth Cymru a'u [fframwaith ar gyfer gwreiddio dull ysgol gyfan o ymdrin â llesiant emosiynol a meddyliol.](#)

Rydyn ni'n gwybod bod llawer o ysgolion yn dechrau mynd ati gyda'r gwaith yma, ac mae'r dasg hon yn eich cefnogi i werthuso eich dull gweithredu presennol a chynnwys disgyblion wrth wreiddio'r fframwaith yn eich ysgol.

Mae'r dasg hefyd yn rhoi cyfle i'ch ysgol roi pob un o'r pum egwyddor sy'n rhan o ddull gweithredu seiliedig ar hawliau plant - a amlinellwyd yn [Y Ffordd Gywir: Dull Gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant i Addysg yng Nghymru](#) - ar waith.

Bydden ni'n croesawu petaech chi'n trefnu cyfarfod rhwng eich Llysgenhadon ac arweinwyr uwch yn eich ysgol fel rhan o'r dasg. Bydd y bobl dan sylw yn amrywio o un ysgol i'r nesaf, er enghraiff, gallai hynny olygu'r tîm cyfan o arweinwyr uwch, eich pennath, eich llywodraethwr arweiniol ar gyfer llesiant a/neu gorff llywodraethu cyfan eich ysgol. Yn ystod y cyfarfod hwn, gallai eich Llysgenhadon a'ch arweinwyr uwch gytuno ar rai blaenoriaethau i'w cynnwys yng Nghynllun Datblygu'r Ysgol.

Erthyglau CCUHP

- Erthygl 3 – Dylai oedolion bob amser wneud beth sydd orau i chi.
- Erthygl 6 – Mae gennych chi hawl i fywyd, i dyfu i fyny, ac i gyflawni eich potensial llawn
- Erthygl 12 – Mae gennych chi hawl i gael eich gwrando a'ch cymryd o ddifri
- Erthygl 19 – Mae gennych chi hawl i gael eich amddiffyn rhag cael eich niweidio neu eich trin yn wael
- Erthygl 24 – Mae gennych chi hawl i gael dŵr glân, bwyd iach, amgylchedd glân a gofal iechyd da
- Erthygl 27 – Mae gennych chi hawl i dŷ go iawn, bwyd a dillad. Rhaid i lywodraethau helpu teuluoedd sy'n methu fforddio darparu hyn
- Erthygl 29 – Mae gennych chi hawl i fod y gorau gallwch chi fod. Rhaid i addysg eich helpu i ddatblygu eich sgiliau a'ch doniau yn llawn

Cysylltiadau â'r Cwricwlwm

- Pedwar Diben y cwricwlwm newydd
- Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Llesiant – Disgrifiadau o'r Dysgu

- Themâu trawsbynciol ar gyfer dylunio eich cwricwlwm: Addysg hawliau dynol a CCUHP
- Gweithredu ac ystyriaethau ymarferol wrth ddylunio eich cwricwlwm: Cynnwys y dysgwyr

Llysgenhadon Uwchradd

Mae Gweithgaredd Hawliau y tymor yma wedi'i gysylltu â chanllawiau statudol Llywodraeth Cymru a'u fframwaith ar gyfer gwreiddio dull ysgol gyfan o ymdrin â llesiant emosiynol a meddyliol.

Rydyn ni'n gwybod bod llawer o ysgolion yn dechrau mynd ati gyda'r gwaith yma, ac mae'r gweithgaredd hwn yn eich cefnogi i werthuso eich dull gweithredu presennol a chynnwys disgylion wrth wreiddio'r fframwaith yn eich ysgol.

Mae'r dasg hefyd yn rhoi cyfle i'ch ysgol roi pob un o'r pum egwyddor sy'n rhan o ddull gweithredu seiliedig ar hawliau plant - a amlinellwyd yn Y Ffordd Gywir: Dull Gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant i Addysg yng Nghymru - ar waith.

Bydden ni'n croesawu petaech chi'n trefnu cyfarfod rhwng eich Llysgenhadon ac arweinwyr uwch yn eich ysgol fel rhan o'r gweithgaredd. Bydd y bobl dan sylw yn amrywio o un ysgol i'r nesaf, er enghraiff, gallai hynny olygu'r tîm cyfan o arweinwyr uwch, eich pennath, eich llywodraethwr arweiniol ar gyfer llesiant a/neu gorff llywodraethu cyfan eich ysgol. Yn ystod y cyfarfod hwn, gallai eich Llysgenhadon a'ch arweinwyr uwch gytuno ar rai blaenoriaethau i'w cynnwys yng Nghynllun Datblygu'r Ysgol.

Gallech chi ystyried defnyddio'r cynghorion gwych i bobl ifanc yn AMPLIFY: How to maximise young people's voices through your secondary school council wrth gynnal y gweithgaredd hawliau yma yn eich ysgol.

Erthyglau CCUHP

- Erthygl 3 - Dylai oedolion bob amser wneud beth sydd orau i chi.
- Erthygl 6 - Mae gennych chi hawl i fywyd, i dyfu i fyny, ac i gyflawni eich potensial llawn
- Erthygl 12 - Mae gennych chi hawl i gael eich gwrando a'ch cymryd o ddifri
- Erthygl 19 - Mae gennych chi hawl i gael eich amddiffyn rhag cael eich niweidio neu eich trin yn wael

- Erthygl 24 – Mae gennych chi hawl i gael dŵr glân, bwyd iach, amgylchedd glân a gofal iechyd da
- Erthygl 27 – Mae gennych chi hawl i dŷ go iawn, bwyd a dillad. Rhaid i lywodraethau helpu teuluoedd sy'n methu fforddio darparu hyn
- Erthygl 29 – Mae gennych chi hawl i fod y gorau gallwch chi fod. Rhaid i addysg eich helpu i ddatblygu eich sgiliau a'ch doniau yn llawn

Cysylltiadau â'r Cwricwlwm

- Pedwar Diben y cwricwlwm newydd
- Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Llesiant – Disgrifiadau o'r Dysgu
- Themâu trawsbynciol ar gyfer dylunio eich cwricwlwm: Addysg hawliau dynol a CCUHP
- Gweithredu ac ystyriaethau ymarferol wrth ddylunio eich cwricwlwm: Cynnwys y dysgwyr

Cyngorion

- Gallai llysgenhadon gyflawni'r dasg/gweithgaredd ar eu pennau eu hunain neu weithio gyda chyfoedion, neu grŵp arall llais y disgybl yn yr ysgol, i wneud y gwaith.
- Gan mai nod y fframwaith yw annog **dull ysgol gyfan** o ymdrin â llesiant, gallech chi annog disgyblion ar draws pob grŵp oedran neu flwyddyn ysgol i chwarae eu rhan.
- Ysgolion uwchradd: Efallai bydd eich ysgol yn gallu cyrchu data trwy'r Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Ysgolion (SHRN). Gallech chi ofyn i arweinwyr uwch sut maen nhw'n defnyddio'r wybodaeth yma i benderfynu sut i gefnogi llesiant emosiynol a meddyliol disgyblion. Mae astudiaeth achos ar dudalen 17 o AMPLIFY sy'n dangos sut mae ysgolion yn gwneud hyn.

Gweithgareddau estyn

- Allech chi gynnwys teuluoedd a'r gymuned ehangach yn eich cynlluniau?

- Allwch chi ddarganfod beth mae'r ysgol uwchradd y byddwch chi'n mynd iddi yn gwneud i gefnogi llesiant?
- Allech chi gyflwyno beth rydych chi'n ei wneud i'r ysgolion cynradd sy'n eich bwydo?
- Ar ddiwedd y flwyddyn ysgol, allech chi werthuso a oes unrhyw newid wedi digwydd?
- Allwch chi feddwl am ffyrdd o sicrhau bod y sgyrsiau hyn yn parhau ar hyd y flwyddyn ysgol gyfan?